# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 12fed o Ionawr 2016 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Wyn Jones (Cadeirydd), Eiddwen Merritt, Garym Roberts a Barry Owen.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc a'r Cynghorydd Sirol John Lumley.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Ruby Williams, Wyn Evans, Jocelyn Andrew, Carys Morgan a Gerallt Davies.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a phaswyd yn unfrydol eu bod yn gywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:** Penderfynwyd i roi'r cofnodion yn ddwyieithog ar wefan y Cyngor yn y dyfodol.

Derbyniwyd lythyr oddiwrth yr Adran Briffyrdd ynglyn a'r ymholiad o gerbydau trwm yn mynd ar ffordd Rhiwgoch yn dweud fod terfyn pwysau o 7.5 tunnell wedi ei osod yno ers sawl blwyddyn ac arwyddion digonol i rybuddio modurwyr. Sonwyd hefyd y caniateir cerbydau trwmach os yr oeddent yn cael mynediad i safleoedd ar y ffordd sy'n cymlethu'r cyfyngiad.

**Cyfarfodydd:**

**GIG Cymru,** Gwasanaethau Iechyd meddwl 19.01.16 – Neb yn mynychu.

**Un Llais Cymru,** Pwyllgor Ardal Ceredigion 20.01.16 – WE a BO yn mynychu.

**Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn 2016:** Llenwyd yr holiadur.

**Gwasanaethau Ffordd o Fyw:**

Cais i newid oriau agor Ar y Bel – Dim gwrthwynebiad.

**Adolygiad a Diogelwch Cefnffyrdd yng Nghymru:** Cadw'r terfyn cyflymder presennol.

**Ffyrdd ar gau dros dro:**

Ger Geneva, Derwengam: O 08.02.16 i'r 12.02.16

Ger Tremdeg, Mydroilyn: O 14.03.16 i'r 18.03.16

**Cais am arian:**

Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion – Gwrthod

Apêl y Ganolfan Awyr - £100

**Llythyr o ddiolch:**

BOPATH Cymru

**Balans y cyfrifon:**

Cyfrif cyfredol: £1754.59

Cyfrif cadw: £1004.53

**U. F. A.**

Clerc i wneud ymholiadau I gael y cinio blynyddol yn y 'Feathers Hotel' ar Nos Wener ddiwethaf ym Mis Chwefror.